# Adolygiad o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb – Cyngor Caerdydd

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4114A2024

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adolygiad o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

Crynodeb o'r adroddiad 4

Adroddiad manwl

Er bod gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cwblhau yn awr, ceir risg nad yw wastad yn cynnwys y personau angenrheidiol ac nad yw'n ymgysylltu ac yn ymgynghori'n fwy eang ar adeg ddigon cynnar i oleuo prosesau penderfynu 8

Argymhellion 16

Atodiadau

Atodiad 1: cwestiynau allweddol a'r meini prawf archwilio 18

# Adolygiad o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb

## Crynodeb o'r adroddiad

**Arddangosyn 1: crynodeb o'r adroddiad**

Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi ffocws ein harchwiliad, ein canfyddiadau allweddol, a'n hargymhellion.

**Pam fod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn bwysig.**
Fel a nodwyd yn ein hadroddiad cenedlaethol, Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio?[1], mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan bwysig o'r dull o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghymru. Mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn helpu gwasanaethau cyhoeddus i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol i osgoi gwahaniaethu yn y penderfyniadau a wnânt ac i hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da mewn perthynas â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig. O'u gwneud yn dda, mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn fwy na modd i ddangos cydymffurfiaeth. Maent yn cefnogi twf cyfeiriad meddwl a diwylliant sy'n gwneud materion cydraddoldeb yn ganolog i brosesau penderfynu a datblygu polisïau.

**Ffocws ein harchwiliad**
Fe wnaethom adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau ei fod yn cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn unol â'i Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024. Roeddem wedi adnabod rhai gwendidau yn y maes hwn yn flaenorol.

Yn ystod ein gwaith, fe wnaethom adnabod rhai pryderon ynghylch dull y Cyngor o ymgynghori, yn ogystal ag ynghylch gofynion asesu ac ymgysylltu penodol Rheoliadau Cydraddoldeb Cymru[2], felly rydym wedi estyn cwmpas ein gwaith ychydig.

[1] Archwilio Cymru, Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio?, Medi 2022.

[2] Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011/1064.

**Ein canfyddiadau allweddol**

Canfuom fod gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cwblhau yn awr gydag amrywiaeth o gymorth i swyddogion sy'n cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Fodd bynnag, canfuom hefyd nad yw canllawiau'r Cyngor ynghylch Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb na'i Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn adlewyrchu rhannau o Reoliadau Cydraddoldeb Cymru yn gywir, ac nad oes trefniadau ganddo i fonitro ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Yn fwy eang, canfuom fod dull y Cyngor o ymgysylltu ac ymgynghori'n creu risg nad yw wastad yn cynnwys pobl ac yn ymgysylltu â phobl mewn ffordd amserol ac ystyrlon i helpu i lywio ei brosesau penderfynu.

**Ein hargymhellion i'r Cyngor**

Rydym wedi gwneud pum argymhelliad i'r Cyngor i gryfhau agweddau ar ei broses Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys sicrhau, wrth gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ei fod yn cynnwys personau sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac sydd â buddiant yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau, a'i fod yn ystyried yr angen i gynnwys pobl o'r fath neu ymgynghori â hwy, mewn ffordd amserol ac ystyrlon.

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno – cwmpas yr archwiliad hwn

1 Fe wnaethom ganolbwyntio ar drefniadau'r Cyngor i sicrhau bod staff yn cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n cydymffurfio â Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant y Cyngor 2020-2024([3]) (y strategaeth). Ni wnaethom adolygu'r modd y cyflawnir y strategaeth gyfan.

2 Fe wnaethom fwrw golwg ar y trefniadau o ddechrau'r broses Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb hyd at yr adeg y gwneir y penderfyniadau.

3 Fe wnaethom fwrw golwg ar sampl fach o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd. Ni wnaethom adolygu'r holl Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sydd wedi ategu penderfyniadau'r Cabinet. Ni wnaethom fwrw golwg ychwaith ar ystyriaeth i Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ym mhrosesau penderfynu aelodau na swyddogion.

4 Wrth adolygu'r sampl o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, roedd gennym rai pryderon ynghylch dull y Cyngor o ymdrin â gofynion asesu ac ymgysylltu penodol Rheoliadau Cydraddoldeb Cymru. Mae hyn yn ymwneud â'r angen i ymgysylltu â phersonau sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac sydd â buddiant yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau.

5 Fe wnaethom hefyd adnabod rhai pryderon ehangach ynghylch dull y Cyngor o **ymgynghori** yn ystod ein gwaith. Mae'r pryderon hyn yn ymwneud â'r cwestiwn

[3] Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-2024 (cardiff.gov.uk).

a yw gweithgareddau ymgynghori'r Cyngor yn ddigon amserol ac ystyrlon i oleuo penderfyniadau'r Cyngor yn iawn. Rydym yn cydnabod nad yw'r gweithgareddau ymgynghori, fel all fod yn ofynnol gan statud arall, cyfraith gyhoeddus ac arfer da, yr un fath â'r gweithgareddau **cynnwys** sy'n ofynnol gan Reoliadau Cydraddoldeb Cymru, ond ceir cysylltiadau rhwng y ddau ac maent weithiau'n gorgyffwrdd. Nid oedd ymgynghori'n rhan o'n cwmpas gwreiddiol yn benodol. Fodd bynnag, o ystyried y cysylltiadau rhwng gweithgareddau ymgynghori a'r gweithgareddau cynnwys sy'n ofynnol dan Reoliadau Cydraddoldeb Cymru, ac o ystyried rôl statudol yr Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd y Cyngor a'i ddyletswydd i fod wedi'i argyhoeddi bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio'i adnoddau, yn ogystal â'i ddyletswyddau mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym yn ystyried y byddai'n ddiofal pe na baem yn codi'r pryderon ehangach hyn a adnabuwyd gennym yn ystod ein gwaith:

6 Mae ein canfyddiadau'n seiliedig ar:

- adolygiadau o ddogfennau;
- cyfweliadau gyda swyddogion;
- grŵp ffocws o swyddogion ar draws y Cyngor sy'n gyfrifol am gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb;
- dangosiad o Offeryn Sgrinio'r Cyngor ar gyfer Asesu'r Effaith; ac
- adolygiad o sampl o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd.

7 Aethom ati i geisio ateb y cwestiwn 'A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol i sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu gwneud yn unol â'i Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant?'

8 Fe wnaethom ni hyn trwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Cyngor ddull o wneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n eglur ac yn cael ei ddeall gan staff?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i gynorthwyo swyddogion yn effeithiol i gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb?
- A yw Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cwblhau i safon ddigon uchel yn unol â dull a strategaeth y Cyngor?
- A yw'r Cyngor yn cryfhau ei ddull o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan adeiladu ar unrhyw wersi a ddysgwyd a sicrhau ansawdd yn unol â safonau ansawdd cytunedig?

9 Mae **Atodiad 1** yn nodi'r cwestiynau ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiom ni i lunio ein casgliadau.

10 Fe gynhaliom ni'r gwaith maes ar gyfer yr adolygiad hwn yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2023. Fe roddom ni'r cyfle i swyddogion y Cyngor wneud sylwadau ar ein canfyddiadau yn ystod yr haf ac eto yn yr hydref.

11 Fe rannom ni ein canfyddiadau drafft gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

## Pam y cynhaliom ni'r archwiliad hwn

12 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswydd yr Archwilydd Cyffredinol i fod wedi'i argyhoeddi bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran defnyddio'i adnoddau[4]. Mae'r archwiliad hefyd yn helpu i gyflawni swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni amcanion llesiant[5].

13 Fel rhan o'n gwaith archwilio perfformiad yn y Cyngor yn 2021-22, fe gyhoeddom ni adroddiadau ar y Gwasanaethau Hamdden[6] a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2022, a Llamu Ymlaen – Gweithlu ac Asedau[7] a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2022. Yn yr adroddiadau hyn, fe amlygom ni rai gwendidau gydag ymlyniad y Cyngor wrth ei Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Mae Strategaeth y Cyngor yn nodi, 'Rydym yn credu ei bod yn arfer da wrth ddatblygu polisi neu strategaeth neu fenter newydd i ragweld yr effeithiau tebygol y gallent eu cael a rhoi camau ar waith i atal neu leihau unrhyw effeithiau niweidiol tebygol, yn enwedig ar bersonau sy'n rhannu unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb'. (Dylid nodi, er ei fod yn adlewyrchu canllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, nad yw'r datganiad hwn ar ei ben ei hun yn adlewyrchu gofynion penodol Rheoliadau Cydraddoldeb Cymru yn llawn). Fodd bynnag, roeddem wedi canfod bod y Cyngor wedi gwneud penderfyniadau strategol heb gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Fe gyhoeddom ni argymhellion yn y ddau adroddiad bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-24 trwy gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

14 Ym mis Medi 2022, fe gyhoeddom ni ein hadroddiad cenedlaethol Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio? [8]. Yn yr adroddiad hwnnw ceir argymhelliad bod cyrff cyhoeddus yn adolygu eu dull cyfredol o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

[4] O dan adran 17(2)(d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

[5] O dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

[6] Cyngor Caerdydd, Adolygiad Dilynol o'r Gwasanaethau Hamdden, Tachwedd 2022.

[7] Cyngor Caerdydd, Llamu Ymlaen: Adroddiad Cyfunol ar y Gweithlu ac Asedau, Ionawr 2023.

[8] Archwilio Cymru, Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio?, Medi 2022.

# Adroddiad manwl

## Yr hyn a ganfuom: Er bod gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cwblhau yn awr, ceir risg nad yw wastad yn cynnwys y personau angenrheidiol ac nad yw'n ymgysylltu ac yn ymgynghori'n fwy eang ar adeg ddigon cynnar i oleuo prosesau penderfynu

### Fe ymatebodd y Cyngor yn gadarnhaol i'n hargymhellion blaenorol ynghylch sefydlu trefniadau goruchwylio corfforaethol i sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael i ategu penderfyniadau'r Cabinet

15 Mewn ymateb i'r argymhellion ynghylch Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ein hadroddiadau ar y Gwasanaethau Hamdden a Llamu Ymlaen, a'n hadroddiad cenedlaethol, fe sefydlodd y Cyngor drefniadau ym mis Ebrill 2023 i gryfhau goruchwyliaeth yr Uwch Dîm Rheoli (UDRh) ar yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n cyd-fynd ag adroddiadau i'r Cabinet. Mae'r UDRh bellach yn cael adroddiadau misol yn amlygu pa un a oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer pob adroddiad i'r Cabinet a pha un a yw ar gael. Mae'r dull hwn yn galluogi'r UDRh i wirio bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael ar yr adeg y gwneir penderfyniadau neu, os nad ydynt, i oedi cyn gwneud penderfyniad neu sicrhau bod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei gwblhau lle y bo'n angenrheidiol.

### Mae gan y Cyngor drefniadau i helpu swyddogion i ddeall ei ddull o gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ond nid yw ei Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant a'i ganllawiau ynghylch Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn adlewyrchu rhannau o'r Rheoliadau a wnaed dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gywir

16 Mae gan y Cyngor y trefniadau canlynol i helpu swyddogion i ddeall ei ddull o gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb:

- Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant 2020-24
- Canllawiau ynghylch Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Offeryn sgrinio ar gyfer Asesu'r Effaith
- Hyfforddiant ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Swyddogion cydraddoldeb

17 Mae offeryn sgrinio'r Cyngor ar gyfer Asesu'r Effaith yn adnodd gwerthfawr i swyddogion. Pan fo wedi cael ei gwblhau, dylai'r offeryn helpu swyddogion i benderfynu a oes angen cwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r offeryn sgrinio'n cynnwys cyngor a chanllawiau ynghylch beth i'w wneud nesaf a phwy i gysylltu â hwy i gael cymorth pellach.

18 Ar adeg ein gwaith maes, roedd y swyddogion cydraddoldeb yn mynychu cyfarfodydd cyfarwyddiaethau a thimau gwasanaethau i hyrwyddo pwysigrwydd cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a chyfeirio at drefniadau'r Cyngor ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Dylai hyn helpu i sicrhau bod dealltwriaeth glir am broses y Cyngor o gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

19 Mae'r Cyngor wedi nodi ei ddull o gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ei strategaeth a'i ganllawiau. Mae'r dogfennau hyn yn glir o ran hyrwyddo'r angen i gychwyn Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar adeg gynnar wrth ddatblygu neu newid polisi, strategaeth neu wasanaeth. Mae hyn yn gyson ag arfer da a nodwyd gan y Ganolfan Arferion Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb yng Nghymru[9] a'n hadroddiad cenedlaethol ni. Yn ystod ein hadolygiad, gwelsom enghreifftiau lle'r oedd y Cyngor wedi datblygu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar adeg gynnar a'i fod wedi adolygu a diweddaru ei Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ystod y broses.

20 Canfuom fod anghysonderau rhwng canllawiau'r Cyngor ynghylch Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'i Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Nid yw'r dogfennau hyn yn adlewyrchu agweddau ar y Rheoliadau[10] a wnaed dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gywir. Mae'r anghysonderau'n creu risg na fydd y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â darpariaethau ymgysylltu'r Rheoliadau. Gallai hyn achosi i'r Cyngor wneud penderfyniadau heb ddeall yn llawn beth yw effaith ei benderfyniad yn enwedig ar y personau hynny sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig.

21 I gydymffurfio â'r Rheoliadau, mae'n bwysig deall manylion y Rheoliadau. Mae Rheoliad 8(1) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud trefniadau asesu effaith 'y mae'n credu eu bod yn briodol'. Fodd bynnag, mae Rheoliad 8(3) yn cyfyngu ar yr hyblygrwydd mewn trefniadau trwy ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â 'darpariaethau ymgysylltu' Rheoliad 5 wrth gynnal asesiadau o'r effaith. Mae Rheoliadau 5(2) a 5(3) o'r Darpariaethau Ymgysylltu'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydymffurfio â'r darpariaethau ymgysylltu wrth gynnal unrhyw weithgaredd; mae cydymffurfio â'r darpariaethau hynny'n golygu bod yr awdurdod wrth gyflawni'r gweithgaredd hwnnw:

(2)… (a) yn gorfod cynnwys unrhyw bersonau y mae'r awdurdod yn credu—

[9] Iechyd Cyhoeddus Cymru (nhs.wales), Y Ganolfan Asesu Effeithiau ar Gydraddoldeb yng Nghymru – Iechyd Cyhoeddus Cymru

[10] Legislation.gov.uk, Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011

(i) eu bod yn cynrychioli buddiannau personau sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig; a

(ii) bod ganddynt fuddiant yn y modd y mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau;

(b) yn cael cynnwys unrhyw bersonau eraill y mae'r awdurdod yn credu eu bod yn briodol; ac;

(c) yn cael ymgynghori ag unrhyw bersonau y mae'r awdurdod yn credu eu bod yn briodol.

(3) Wrth ddod i benderfyniad o dan baragraff (2)(b) neu (c) rhaid i'r awdurdod roi sylw i'r angen i gynnwys neu i ymgynghori (yn ôl y digwydd), i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol gwneud hynny, â phersonau—

(a) sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig; a

(b) sydd â buddiant yn y ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau.

22 Felly, er bod gan y Cyngor hyblygrwydd sylweddol i bennu ei drefniadau ei hun (ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu'n briodol yn ei offeryn sgrinio), pan fo wedi penderfynu cynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, rhaid iddo gydymffurfio â gofynion ymgysylltu Rheoliad 5. Fodd bynnag, nid yw Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant y Cyngor yn adlewyrchu'r gofynion hyn yn llawn. Nid yw'n amodi'n benodol bod rhaid i'r Cyngor gynnwys personau sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac sydd â buddiant yn y ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau, ac nid yw'n amodi bod rhaid iddo, wrth benderfynu â phwy y bydd yn ymgynghori, ystyried yr angen i ymgynghori â phobl o'r fath. Dim ond 'cynghori' swyddogion i geisio barn pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig y mae.

23 Mae canllawiau'r Cyngor ynghylch Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd yn methu â disgrifio'r gofynion hyn yn gywir. Mae'r canllawiau'n nodi bod 'ymgynghori ac ymgysylltu ynghylch cynigion sydd â'r potensial i arwain at effaith negyddol sylweddol yn un o ofynion y Ddeddf Cydraddoldeb'. Un o ofynion y Rheoliadau, nid Deddf Cydraddoldeb 2010, yw ymgysylltu. Yn bwysicach, serch hynny, nid yw'r gofyniad i ymgysylltu fel y'i nodir yn y Rheoliadau'n gyfyngedig i gynigion sydd â'r potensial i arwain at effaith negyddol sylweddol. Yn wir, mae'r gofyniad i ymgysylltu'n berthnasol i unrhyw asesiad o'r effaith.

24 Mae canllawiau'r Cyngor ynghylch Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn egluro, wrth ymgynghori ac ymgysylltu, y gall swyddogion siarad gyda chyrff generig yn y trydydd sector neu elusennau cydraddoldeb arbenigol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cydymffurfio â'r Rheoliadau gan nad yw'n amodi'n glir bod rhaid i'r Cyngor ymgysylltu â phersonau yr ystyrir eu bod yn cynrychioli pobl sy'n rhannu un neu fwy nag un o'r nodweddion gwarchodedig ac sydd â buddiant yn y ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau (gweler testun Rheoliad 5 a ddyfynnir ym mharagraff 21 uchod). Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cynnwys personau cynrychioliadol o'r fath. Heblaw am beidio â chydymffurfio'n llawn â'r Rheoliadau, gallai methu â chynnwys personau cynrychioliadol o'r fath

olygu bod y Cyngor yn gwneud penderfyniadau heb ddealltwriaeth dda am effaith ei benderfyniadau.

25 Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn mynd ati'n gywir i adlewyrchu a hyrwyddo'r angen i ymgysylltu yn unol â'r Rheoliadau trwy ei ganllawiau a'i strategaeth. Yn unol â'r bwriadau sy'n sail i'r Rheoliadau – h.y. helpu cyrff i gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 – mae angen i'r Cyngor sicrhau ei fod yn defnyddio ei drefniadau ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i ategu prosesau penderfynu er mwyn helpu i hybu cyfle cyfartal a'r arfer o feithrin cysylltiadau da mewn perthynas â phobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar unrhyw effeithiau negyddol.

26 Hefyd, gan bod rhywfaint o gyffredinrwydd rhwng gofynion y Rheoliadau a 'Chynnwys' fel ffordd o weithio sy'n ofynnol yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[11], gallai'r diffyg yn nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fod yn tanseilio i ba raddau y mae'r Cyngor yn dilyn yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yn y Ddeddf honno. Os nad yw'r Cyngor yn ateb gofynion cynnwys y Rheoliadau'n llawn, yna byddai'n ymddangos yn debygol bod y Cyngor hefyd yn methu â chyflawni'r gweithgareddau cynnwys sy'n ofynnol gan Ddeddf 2015.

27 Mae'r Cyngor i fod i adolygu ei Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn ystod 2023-24. Dylai'r Cyngor ddefnyddio'r adolygiad hwn i sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cydymffurfio'n llawn â'r Rheoliadau a wnaed dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddai hyn yn lleihau unrhyw gamddealltwriaeth bosibl am y gofynion i gynnwys wrth gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ac mewn perthynas ag ymgynghori. Byddai hefyd yn helpu i roi sicrwydd i'r Cyngor ei fod yn cydymffurfio â'r holl Reoliadau sydd wedi'u bwriadu i'w helpu i gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn adran 141 Deddf Cydraddoldeb 2010.

[11] Gweler a5(2)(d) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff ystyried 'pwysigrwydd cynnwys personau eraill sydd â diddordeb mewn cyrraedd y nodau llesiant a sicrhau bod y personau hynny'n adlewyrchu amrywiaeth poblogaeth (i) Cymru (pan fo'r corff yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru gyfan), neu (ii) y rhan o Gymru y mae'r corff yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â hi.

## Mae dull y Cyngor o gwblhau asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn creu risg o beidio â chynnwys personau sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac sydd â buddiant yn y ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau, ac o beidio ag ymgysylltu â phobl o'r fath ac ymgynghori â hwy ac eraill mewn ffordd amserol i oleuo prosesau penderfynu

28 Yn ystod ein gwaith, fe wnaethom adolygu sampl fach o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd. Rydym yn derbyn bod y Cyngor yn gwneud llawer o benderfyniadau ac efallai nad yw ein canfyddiadau ni o adolygu'r sampl hon yn gynrychiolaidd. Fodd bynnag, o'r sampl o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a adolygwyd gennym, fe wnaethom adnabod rhai pryderon ynghylch ansawdd a chyflawnder rhai o Asesiadau'r Cyngor o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

29 Mewn cysylltiad â'r gofynion statudol sy'n berthnasol i Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, fe wnaethom hefyd adnabod pryderon ehangach pa un a oedd **ymgyngoriadau'r** Cyngor ynghylch rhai o'r newidiadau i'w wasanaethau wedi bod yn amserol ac ystyrlon ac yn unol ag Egwyddorion Gunning[12]. Pedair egwyddor sy'n helpu i roi arweiniad i ganfod a yw ymgynghoriad wedi bod yn deg yw Egwyddorion Gunning. Un o'r egwyddorion yw bod rhaid i ymgynghoriad ddigwydd pan fo'r cynnig yn dal wrthi'n cael ei lunio.

30 Rydym yn cydnabod nad yw'r darpariaethau ymgysylltu statudol ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a nodir yn Rheoliad 5 o Reoliadau 2011 eu hunain yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad yn unol ag Egwyddorion Gunning. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod cysylltiad rhwng ymgysylltiadau rheoleiddiol o'r fath ac ymgynghori ehangach, yn yr ystyr bod y Rheoliadau'n gwneud darpariaeth mewn perthynas ag ymgynghori, fel a nodir ym mharagraff 22 uchod, i'w gwneud yn ofynnol bod awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â phwy y dylent ymgynghori â hwy'n rhoi ystyriaeth i'r angen i ymgynghori â phersonau sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ac sydd â buddiant yn y ffordd y mae'r awdurdod yn cyflawni ei swyddogaethau.

31 Beth bynnag, rydym ni'n ystyried, trwy ddilyn Egwyddorion Gunning mewn perthynas â gweithgareddau cynnwys sy'n ofynnol gan y rheoliadau cydraddoldeb ac wrth ymgynghori, y bydd y Cyngor yn helpu i sicrhau bod gweithgareddau o'r fath yn amserol ac yn ystyrlon. Mae'r Cyngor yn cydnabod hyn o fewn y fersiwn ddrafft o'r Strategaeth Gyfranogi 2023-2027. Prif fyrdwn y strategaeth hon yw hybu cyfranogiad dinesig a rhoi llais i bobl Caerdydd o ran llywio'r penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau a hefyd ymgysylltu a chydweithio gyda chymunedau. Mae'r

[12] Y Gymdeithas Llywodraeth Leol (detholiad), The Gunning Principles.

Strategaeth Gyfranogi'n cyfeirio at yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru ac Egwyddorion Gunning.

32 Fel archwilydd allanol y Cyngor, rydym wedi cael sawl darn o ohebiaeth gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn codi pryderon nad oedd y Cyngor yn ymgysylltu â hwy'n ddigon cynnar yn y broses benderfynu. Roedd y defnyddwyr gwasanaethau hyn yn pryderu bod ymgysylltu'n cael ei wneud mewn ffordd docynistaidd gan eu bod yn teimlo bod y Cyngor eisoes wedi gwneud ei benderfyniadau i bob pwrpas.

33 Canfuom enghreifftiau o Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd a oedd yn nodi y byddai ymgysylltu'n digwydd ar ôl i'r Cyngor benderfynu 'mewn egwyddor' ynglŷn â dull gweithredu. Canfuom hefyd enghreifftiau o benderfyniadau, y mae'r Cyngor wedi'u disgrifio fel penderfyniadau 'mewn egwyddor', yn cael eu gwneud heb i'r Cyngor fod wedi gweld Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd. Rydym yn cydnabod bod Rheoliad 8 yn rhoi disgresiwn i'r Cyngor o ran ei drefniadau ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb (ar yr amod ei fod yn cydymffurifo â darpariaethau ymgysylltu Rheoliad 5 pan fo'n gwneud Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb) a bod hyn yn rhoi'r cyfle i'r Cyngor wneud penderfyniadau 'mewn egwyddor' heb Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb rhag blaen. Fodd bynnag, rydym yn ystyried bod angen gofal i sicrhau mai yn union hynny yw penderfyniadau 'mewn egwyddor' ac nad ydynt yn gyfystyr yn y bôn â phenderfyniadau terfynol, megis bwrw ymlaen â gweithgarwch sy'n gwneud opsiynau eraill yn anymarferol neu'n rhy ddrud. Er enghraifft, yn achos un o'r penderfyniadau a adolygwyd gennym, roedd swyddogion y Cyngor wedi cael awdurdod dirprwyedig i ymrwymo i negodiadau gyda'r cyflenwr a ffefrid. Rydym ni o'r farn bod angen gofal arbennig i sicrhau bod meddyliau aelodau'n wirioneddol agored i opsiynau eraill os yw negodiadau wedi symud ymlaen yn bell ar opsiwn penodol, ac y byddai ymdrech a gwariant sylweddol wedi bod yn ofer i bob pwrpas pe byddid yn mynd ar drywydd unrhyw opsiwn arall.

34 Ym mhob un o'r enghreifftiau a adolygwyd gennym, mae'r Cyngor o'r farn, gan nad oedd y penderfyniad terfynol wedi cael ei wneud, bod cynigion yn dal wrthi'n cael eu llunio a bod meddyliau penderfynwyr yn dal yn agored i newid a dylanwad o weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu yn y dyfodol. Yn ei farn ef, pan wnaeth aelodau'r penderfyniad terfynol, cafodd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan gynnwys canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu eu darparu, gan felly roi cyfle i'r aelodau asesu effaith debygol ei bolisi neu arfer arfaethedig ar allu'r Cyngor i gyflawni dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, yn ein barn ni, mewn rhai achosion, gan bod y Cyngor eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth fynd ar drywydd yr opsiwn a ffefrid ganddo, roedd dylanwad yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o bosibl yn llai trwm nag y dylai fod wedi bod.

35 Ar y cyfan, rydym yn ystyried bod tueddiad y Cyngor i gyflawni gweithgareddau ymgysylltu statudol mewn perthynas â chydraddoldeb a gweithgareddau ymgynghori ehangach ar gamau olaf ei broses benderfynu'n creu nifer o risgiau i'r Cyngor, gan gynnwys:

- trwy beidio â deall anghenion y gymuned a defnyddwyr gwasanaethau'n gynnar wrth ddatblygu ei gynigion fe allai'r Cyngor ddylunio newid i wasanaeth neu ddylunio polisi nad yw o bosibl yn diwallu anghenion y gymuned a defnyddwyr. Mae hyn hefyd yn creu risg i werth am arian gan y gall y Cyngor fod wedi gwario arian a neilltuo adnoddau mewn cyfeiriad penodol, y gall fod angen iddo benderfynu ei newid wedyn.
- efallai na fydd penderfynwyr yn ymwybodol o effeithiau posibl cynigion y Cyngor ar bobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ar adeg ddigon cynnar i helpu i benderfynu sut y gallant liniaru'r effeithiau hynny. Mae hyn yn lleihau'r cyfle i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gael ei ddefnyddio i lywio polisi neu arfer y Cyngor go iawn. Byddai deall effeithiau posibl yn gynharach yn helpu'r Cyngor i benderfynu sut y gallai liniaru'r effeithiau hynny tra bo cynigion yn dal wrthi'n cael eu llunio.
- trwy ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn hwyrach yn y broses benderfynu, mae'r cyhoedd yn debygol o fod yn llai ymwybodol o'r rhesymau dros y polisi neu'r newid i wasanaeth. Mae ymgysylltu ac ymgynghori'n gynharach yn darparu cyfle i'r Cyngor hysbysu defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd, gan gynnwys pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig, ynghylch y sail resymegol dros newid i wasanaeth.
- gallai fod canfyddiad nad yw'r Cyngor yn wirioneddol agored i gynnwys personau sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac sydd â buddiant yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau. Ac mae'r un peth yn wir mewn perthynas ag ymgynghori â chymunedau ehangach a deall a gwerthfawrogi eu barn a syniadau gwahanol.

36 Rydym yn cydnabod nad yw ymgynghori â phersonau sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac sydd â buddiant yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau, ac ymgynghori â chymunedau ehangach ond yn ffynonellau gwybodaeth penodol, a bod ystyriaethau eraill wrth wneud penderfyniadau, megis y galw am wasanaethau a fforddiadwyedd ariannol. Fodd bynnag, mae peidio â chynnwys personau perthnasol yn ddigonol a pheidio ag ymgynghori'n fwy eang i raddau digonol wrth fwrw ymlaen â chynigion yn creu risg nad yw aelodau a swyddogion yn meddu ar ddigon o wybodaeth am effeithiau posibl.

## Mae gan y Cyngor drefniadau i gefnogi swyddogion sy'n cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ond nid oes trefniadau ganddo i fonitro ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

37 Mae gan y Cyngor ddau swyddog cydraddoldeb sydd ar gael i roi cymorth i swyddogion wrth gwblhau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r swyddogion hyn yn mynychu cyfarfodydd timau i dywys swyddogion trwy'r broses ac maent yn darparu hyfforddiant rheolaidd ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a

hyfforddiant un-i-un rheolaidd. Siaradodd y swyddogion a ddaeth i'n grŵp ffocws ni'n gadarnhaol am y cymorth y maent yn ei gael gan y swyddogion cydraddoldeb.

38 Ar adeg ein gwaith maes, roedd swyddogion cydraddoldeb yn adolygu data presenoldeb yr hyfforddiant ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i adnabod y cyfarwyddiaethau hynny nad ydynt wedi cael hyfforddiant. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i dargedu'r gwasanaethau hynny'n well i sicrhau eu bod yn gwybod yn glir beth yw dull y Cyngor ac yn ymlynu wrtho.

39 Nid yw'r Cyngor yn ceisio adborth gan y swyddogion hynny sy'n cwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i ddeall a oes angen unrhyw hyfforddiant neu gymorth pellach arnynt. Mae swyddogion yn cofnodi eu hanghenion hyfforddi, dysgu a datblygu yn system Adolygu Datblygiad Personol y Cyngor. Heb geisio adborth a holi'r system Adolygu Datblygiad Personol i ganfod unrhyw anghenion hyfforddi pellach mewn perthynas ag Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ni all y Cyngor ei sicrhau ei hun bod anghenion hyfforddi yn y maes hwn yn cael eu diwallu'n ddigonol.

40 Canfuom hefyd nad oes trefniadau gan y Cyngor i fonitro nac asesu ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Nid oes gan y Cyngor ychwaith drefniadau i fonitro a yw'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cwblhau yn unol â'r Rheoliadau neu ganllawiau'r Cyngor ynghylch Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'i strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant. Nid yw canllawiau'r Cyngor yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at asesu a monitro ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Nid yw'n glir ychwaith pwy sy'n gyfrifol am gymeradwyo Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

41 Felly, ni all y Cyngor fod wedi'i sicrhau bod pob Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys digon o wybodaeth a honno'n wybodaeth briodol i alluogi penderfynwyr i ddeall canlyniadau posibl ei benderfyniadau. O ystyried ein canfyddiadau yn yr adroddiad hwn, mae'n hollbwysig bod y Cyngor yn datblygu trefniadau i fonitro ac asesu ansawdd ei Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Gallai monitro ansawdd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb helpu i oleuo a diweddaru cynnwys ei hyfforddiant ar Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb hefyd.

42 Er nad yw hynny'n ofynnol yn ôl y Rheoliadau eu hunain, mae'n arfer da yn unol â chanllawiau'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol[13] bod Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd yn nodi cam(au) gweithredu i liniaru unrhyw effaith ar grwpiau gwarchodedig. Mae templed y Cyngor ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y dylai cynllun busnes y gwasanaeth perthnasol gynnwys y camau gweithredu hyn ar gyfer monitro rheolaidd. Fodd bynnag, ceir diffyg goruchwyliaeth gorfforaethol i sicrhau bod y gwasanaeth(au) yn codi ac yn cyflawni'r camau gweithredu sy'n angenrheidiol i liniaru effeithiau anffafriol.

43 Mae canllawiau'r Cyngor ynghylch Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi'n glir ei bod hi'n bwysig defnyddio data i adnabod effeithiau posibl, ac maent yn

[13] Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – Hybu a chynnal delfrydau a deddfau cydraddoldeb a hawliau dynol ledled Cymru. Lloegr a'r Alban.

cyfeirio swyddogion at lawer o ffynonellau data wrth gwblhau Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Fodd bynnag, nid yw'r templed ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdur ddatgelu'r ffynonellau a ddefnyddiwyd. Byddai cynnwys ffynonellau data o fewn yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn helpu'r Cyngor i'w sicrhau ei hun bod yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys ystod resymol a digonol o ddata i'w helpu i ddeall yn well beth yw effeithiau posibl cynigion ar y rhai â nodweddion gwarchodedig.

44 Mae ffocws y Cyngor hyd yma wedi bod ar sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cwblhau ac yn cyd-fynd ag adroddiadau i'r Cabinet. Ond fel a amlygwyd yn ein hadroddiad cenedlaethol, mae Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan bwysig o'r dull o fynd i'r afael â gwahaniaethu a hybu cydraddoldeb. Byddai bod â threfniadau sicrhau ansawdd a goruchwylio cryfach yn helpu i gryfhau dull y Cyngor o hybu cydraddoldeb.

# Argymhellion

**Arddangosyn 2: argymhellion**

| | |
|---|---|
| A1 | Dylai'r Cyngor gryfhau ei Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant a chanllawiau ategol ynghylch Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb fel bod y rhain yn adlewyrchu gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 yn gywir. |
| A2 | Dylai'r Cyngor ddarparu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer aelodau sy'n ymgorffori canlyniadau cynnwys personau sy'n cynrychioli buddiannau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac sydd â buddiant yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau. Dylai'r Cyngor hefyd ddarparu canlyniadau ymgyngoriadau y mae wedi'u cynnal ar gyfer aelodau, yn dilyn rhoi ystyriaeth i'r angen i gynnwys pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig ac sydd â buddiant yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau neu i ymgynghori â hwy. Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn darparu Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a chanlyniadau ymgynghori o'r fath ar gyfer aelodau pan fo cynigion wrthi'n cael eu llunio, h.y. tra bo penderfyniadau'n dal i fod yn agored go iawn. Yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth gyfreithiol, dylai gwybodaeth o'r fath wella dealltwriaeth aelodau am y risgiau a'r effeithiau y gallai'r cynigion eu hachosi ac felly dylai oleuo prosesau penderfynu'n well. |

| | |
|---|---|
| A3 | Dylai'r Cyngor sefydlu trefniadau i adolygu ansawdd ei Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i'w sicrhau ei hun ei fod yn ateb gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Dylai adolygu ansawdd ei Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb gael ei ddefnyddio wedyn i roi ffocws i'w hyfforddiant a chymorth hefyd. |
| A4 | Dylai'r Cyngor sefydlu trefniadau i sicrhau bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys ffynonellau data perthnasol fel bod penderfynwyr yn gallu sicrhau eu hunain bod Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ystyried ystod resymol a digonol o ddata i ddeall effeithiau posibl ar nodweddion gwarchodedig yn well. |
| A5 | Dylai'r Cyngor sefydlu trefniadau i sicrhau bod y cam(au) gweithredu a adnabyddir i liniaru unrhyw effaith ar bobl â nodwedd(ion) (g)warchodedig yn cael eu cymryd ac yn lliniaru effaith anffafriol. |

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a’r meini prawf archwilio

Isod ceir y cwestiynau yr oeddem yn ceisio’u hateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â’r meini prawf archwilio a ddefnyddiom ni i lunio ein canfyddiadau.

Prif gwestiwn yr archwiliad: **A oes gan y Cyngor drefniadau effeithiol i sicrhau bod Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu gwneud yn unol â’i Strategaeth Cydraddoldeb a Chynhwysiant?**

**Arddangosyn 3: cwestiynau’r archwiliad a’r meini prawf archwilio.**

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf |
|---|---|
| 1. A oes gan y Cyngor ddull o wneud Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb sy’n eglur ac yn cael ei ddeall gan staff? | • Mae’r Cyngor wedi nodi dull eglur o wneud Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb.<br>• Ceir dull eglur o benderfynu a yw’n ofynnol gwneud Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb.<br>• Mae gan staff ddealltwriaeth eglur am ddull y Cyngor a’r hyn y mae angen iddynt ei wneud wrth ddatblygu Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb.<br>• Mae uwch swyddogion yn perchenogi dull y Cyngor ac yn llywio’r modd y caiff ei roi ar waith, fel bod Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu defnyddio fel offeryn i hybu cydraddoldeb, yn hytrach nag fel ymarfer ‘blwch ticio’ ategol. |
| 2. A oes gan y Cyngor drefniadau i gynorthwyo swyddogion yn effeithiol i gynnal Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb? | • Ceir canllawiau i gefnogi’r rhai sy’n cynnal Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb, sy’n nodi’r hyn y mae angen iddynt ei wneud a phryd, yn unol â’r dyletswyddau a dewis ddull y Cyngor.<br>• Mae cymorth arbenigol ac arbenigedd ar gael yn y Cyngor i’r rhai sy’n cynnal Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb.<br>• Mae hyfforddiant ar gynnal Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael i staff sy’n rhan o ddatblygu Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb a’r rhai sy’n eu defnyddio i wneud penderfyniadau. Mae staff yn defnyddio’r cymorth a’r canllawiau sydd ar gael.<br>• Mae’r broses o ddatblygu Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael ei chychwyn yn gynnar i oleuo datblygiad polisi/strategaeth.<br>• Defnyddir amrywiaeth o dystiolaeth i ategu’r asesiad, gan gynnwys barn y rhai y mae’n debygol yr effeithir arnynt a data ar brofiad personol.<br>• Rhoddir rhywfaint o ystyriaeth i effeithiau cronnus ar yr un grŵp neu grwpiau a sut y mae gwahanol nodweddion gwarchodedig yn cyfuno. |

| Cwestiynau Lefel 2 | Meini Prawf |
| --- | --- |
| 3. A yw Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cwblhau i safon ddigon uchel yn unol â gofynion cyfreithiol? | • Yn seiliedig ar y sampl o Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb a adolygwyd, mae’r rhain yn cael eu cwblhau yn unol â gofynion cyfreithiol.<br>• Ceir argymhellion eglur ar gyfer lliniaru effeithiau negyddol y gweithredwyd arnynt cyn gwneud y penderfyniad.<br>• Byddai’r Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd yn helpu penderfynwyr i asesu pa mor bwysig yw’r effeithiau tebygol a pha un a fyddai unrhyw fesurau lliniarol a gynigir yn ddigonol. |
| 4. A yw’r Cyngor yn cryfhau ei ddull o gynnal Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb gan adeiladu ar unrhyw wersi a ddysgwyd a sicrhau ansawdd yn unol â safonau ansawdd cytunedig? | • Mae gan y Cyngor ddull eglur o sicrhau ansawdd y broses Asesu’r Effaith ar Gydraddoldeb.<br>• Mae’r Cyngor yn monitro’r Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn erbyn set o safonau ansawdd cytunedig.<br>• Mae’r Cyngor yn monitro ei drefniadau ei hun i sicrhau bod Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb ar gael i swyddogion/aelodau wrth wneud penderfyniadau polisi a strategol.<br>• Mae’r Cyngor yn adnabod gwersi i gryfhau ei ddull o gwblhau Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb ymhellach ac yn rhoi’r gwersi hyn ar waith.<br>• Mae’r Cyngor yn ymateb i’r argymhelliad perthnasol yn ein Hastudiaeth Genedlaethol – Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb: mwy nag ymarfer blwch ticio? |

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.